

Gwasanaethau i gyd am 10.30 os na nodir yn wahanol

Ebrill	2	Gweinidog - Cymundeb
	9	Sul y Blodau <i>Cwrdd Undebol y Gwanwyn</i> Parchg Gerwyn Jones <i>Casgliad at yr Adeiladau</i>
	14	Dydd Gwener y Groglith Cymundeb - 10.00
	16	Sul y Pasg – Gweinidog - Cymundeb
	23	Gweinidog
Dydd Mercher Ebrill 26ain Cyfundeb yn cwrdd am 3.00 o'r gloch prynhawn yma yn y Tabernacl. Llywydd Undeb yr Annibynwyr, Mr Glyn Williams, i annerch		
	30	Parchg Andrew Lenny
Mai	7	Gweinidog - Cymundeb
	14	Cwrdd Undebol Noddfa
	21	Parchg Jill-Hailey Harris
	28	Gweinidog
Mehefin	4	Gweinidog - Cymundeb
	11	Parchg Ken Williams
	18	Gweinidog
	25	Parchg Alun Tudur



Tabernacl Porthcawl

PASG 2017

“WWW, fi ffili aros!!” Sawl gwaith rym ni wedi dweud hynny, wrth i ni edrych ‘mlan i ddigwyddiad arbennig, ond wedyn ma’r gwrthwyneb, lle nad yw’r aros yn un pleserus, wrth i ni aros am ganlyniadau, prun ai yn feddygol neu’n arholiadau, yn gorfod aros a ddim yn gwybod beth i ddisgwyl a dyna allai ddychmygu oedd profiad pob un o ddilynwyr Iesu ar y dydd Sadwrn wedi croeshoeliad a marwolaeth ei Meistr a’i ffrind.

Chi erioed wedi meddwl pam nad yw’r eglwys wedi rhoi enw ar ddydd Sadwrn y Pasg?

Mae ‘da ni Ddydd Iau Cablyd, a’i gysylltiad a’r Swper Olaf a bradychiad ac arestiad Iesu.

Dydd Gwener y Groglith lle rym ni’n cofio treial a dienyddiad Iesu.

Sul y Pasg, sy’n dathlu ffeithiau rhyfeddol y bedd gwag, y llyeiniau wedi eu plygu a’r Crist atgyfodedig yn cwrdd â’r disgyblion syn.

Ond beth am y Sadwrn? Sdim teitl arbennig i’r dydd Sadwrn hwn, sy’n awgrymu bod dim o bwys wedi digwydd. Ond tybed..? Dewch i ni weld.....

Roedd corff Crist yn gorwedd mewn bedd wedi ei selio gan garreg enfawr a nifer o warchodwyr/milwyr yno yn gwneud yn siwr na fyddai dilynwyr Iesu yn dwyn y corff.

Ond wrth gwrs dyna’r peth diwethaf ar feddyliau’r disgyblion, ron nhw’n cadw eu pennau’n isel y tu ôl i ddrysau clo, yn crynu mewn arswyd ac ofn oherwydd digwyddiadau’r oriau sydd wedi mynd heibio ac y byddai’r un peth yn digwydd iddyn nhw.

Wrth gwrs rym ni’n gwybod diwedd yr hanes, ac felly mae’n anodd i ni wir ddeall teimladau’r sawl oedd wedi rhoi popeth oedd ‘da nhw er mwyn dilyn Iesu, a nawr yn darganfod bod eu

breuddwydion wedi cael eu chwalu'n llwyr. Dyma'r diwrnod felly bu i realiti'r digwyddiadau erchyll eu bwrw nhw'n drwm, a'u siglo i'r dyfnderoedd tywyllaf. Beth yn y byd mawr ron nhw'n mynd i neud nawr?

A oedd 'na bosibilrwydd y gallai Duw ddod a rhywbeth da o'r digwyddiad ofandwy hwn? Wel, oedd, wedi'r aros ar y Sadwrn, fe ddaeth gwawr ogoneddus Sul yr Atgyfodiad ac addewid Duw yn cael ei gyflawni.

A all Duw ddod a rywbeth da o'r holl ddigwyddiadau trawmatig, ysgytwol yn ein bywydau personol ac yn y byd? Ymosodiadau terfysgol erchyll y 'So called Islamic State' a all daro unrhywle. Dioddefaint y terfysg yn Syria. Mae'n anodd i ni allu ddychmygu adeg pan 'Fydd gwledydd ddim yn ymladd ei gilydd, nac yn hyfforddi milwyr i fynd i ryfel.' (Es 2:4)

Dyma sut mae'r awdur Philp Yancey yn esbonio'r Sadwrn rhwng y Groglith a'r Pasg yn ei lyfr "What's So Amazing About Grace" sydd wedi fy helpu i ddeall arwyddocâd Sadwrn y Pasg a'i berthynas i ni Gristnogion heddi.

Meddai'r awdur Philip Yancey yn ei lyfr "What's So Amazing About Grace," "Those who follow Jesus today, live, in a cosmic scale, on Easter Saturday, waiting for the total fulfilment of his resurrection promise to us. It is a good thing to remember that in the cosmic drama, we live out our days on Saturday, the in-between day with no name. I know a woman whose grandmother lies under 150 year old live oak trees in the cemetery of an Episcopal church in rural Louisiana. In accordance with the grandmother's instructions, only one word is carved on the tombstone: 'Waiting.'

Rym ni Gristnogion yng nghyfnod yr '**aros**' hefyd, yn byw rhwng yr addewid a chyflawniad yr addewid. Sef addewid Duw y bydd Crist yn dod yn ôl i'r byd i deyrnasu. pan fydd nefoedd newydd a daear newydd.

Felly er nad oes gan Ddydd Sadwrn y Pasg deitl, mae'n ddiwrnod pwysig, yn dweud wrthym, trwy ffydd, y gallwn ymddiried yn addewidion Duw, bod yna ddyddiau gwell i ddod, "Yna gwelais

Undeb yr Annibynwyr - Cyngor y Gwanwyn yng Ngregynog.

Gan fod un o gynrychiolwyr y Cyfundeb yn dost gwahoddiwyd fi i lanw'r bwlch yng nghyfarfod Cyngor yr Undeb yng Ngregynog dydd Gwener 10fed a dydd Sadwrn 11eg o Fawrth.

Mae'n fy synnu bob tro dwi'n mynd i gyfarfodydd yr Undeb gymaint sydd yn mynd ymlaen, ac os nad ydych yn derbyn y Tyst, ychydig iawn o'r gweithgaredd yma sydd yn dod i sylw aelodau ein heglwysi.

Rhennir y Cyngor yn bedair adran,
Adran Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang,
Adran Eglwysi a'u Gweinidogaeth,
Adran Dinasyddiaeth Gristnogol,
Adran Tystiolaeth,

gyda cynrychiolydd y Cyfundebau yn mynychu dwy adran. Gofynnwyd i mi gynrychioli'r Cyfundeb ar Adran Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang ac Adran Tystiolaeth. Emlyn Davies oedd yn cynrychioli'r Cyfundeb ar y ddwy adran arall.

Cyn i ni rannu i'r adrannau cafwyd cyflwyniad gan Mari Huws, y Comisiynydd Iaith. Byrdwn ei neges oedd bod gan bawb, yn cynnwys yr eglwysi Annibynnol, gyfraniad i'w wneud er mwyn sicrhau fod nifer y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf.

Bydd adroddiad llawn am bob adran yn ymddangos yn y Tyst ond gan fod cyfeiriad yn y Cylchlythyr yma at gwrs Undeb yr Annibynwyr - Y Ffordd, mae'n werth cofnodi beth ddwedodd Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, y Parchg Ddr Geraint Tudur, am y cwrs. Dywedodd fod yr ymateb wedi bod yn syfrdanol gyda'r DVD's yn cael derbyniad ardderchog a bod pobl ifanc yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf, fel y Wê ac You Tube, i drafod y cynnyrch. Ychwanegodd "Mae'r prosiect yma wedi gwneud rhywbeth ni ddim wedi gallu gwneud ers dwy genhedlaeth"

Tom Price

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

Yn Wythnos Cymorth Cristnogol eleni 14eg i 21ain o Fai, gallwn helpu i drawsnewid bywydau ffoaduriaid fel Nejeber. Nid oes gan Nejebar le diogel i'w alw'n gartref. Ffodd Nejebar Affganistan gyda'i theulu ar ôl i'r Taliban fygwth lladd ei gŵr, Noor, a oedd yn athro. Nid bygythiad gwag oedd e, fe lofruddiodd y Taliban aelod arall o'r teulu i ddechrau. 'Y dyddiau a'r wythnosau olaf yn Affganistan oedd y rhai mwyaf anodd,' meddai Noor. 'Pan oeddwn yn mynd i'm gwaith, roedd fy nghalon yn curo'n galed. Doeddwn i ddim yn gwybod a fyddai fy nheulu yn dal yn fyw wedi imi ddod adref.'

Erbyn hyn mae teulu Nejebar yn sownd yng Ngroeg. Pan gyrhaeddodd y teulu wersyll ffoaduriaid yng Ngroeg, roeddent yn credu mai ond am 10 diwrnod y byddai raid iddynt aros yno. Ond maent wedi bod yno am chwe mis bellach a dim arwydd eu bod am gael symud. Yr unig loches sydd ganddynt yn erbyn y gwynt a'r glaw ydi eu pabell. Does dim ysgol i'r plant. Mae eu plentyn ifanca, Sudai, sy'n bump, yn sâl, ond ni wŷr Nejebar a Noor be sy'n bod arno gan nad ydynt yn deall meddyg y gwersyll, sy'n Roegwr. Nejebar yw'r graig sy ynghanol bywyd y teulu, yn eu dal gyda'i gilydd ynghanol yr holl ansicrwydd. Mae hyd yn oed wedi croesawu Faraidoon a Farzad i'r teulu, dau frawd na wyddant ble mae eu rhieni, na hyd yn oed os ydynt yn fyw ai peidio.

'Mae gennym beth gobaith am ddyfodol ein plant,' meddai Nejebar. 'Dim ond am gael bywyd heddychlon ydyn ni. Ryn ni am i'r plant gael mynd i'r ysgol. Y peth pwysicaf i ni yw'r plant.'

Bydd cyfle gyda ni i gyd i ddysgu mwy am Nejeber a helpu ei sefyllfa trwy gyfrannu yn ôl ein gallu i Gymorth Cristnogol a sefydlwyd 60 mlynedd yn ôl er mwyn helpu ffoaduriaid wedi'r ail rhyfel byd. "Rydym wedi bod yn helpu ffoaduriaid ers 1945, dyn ni ddim am droi ein cefnau nawr!"

Hefyd mae angen gwirfoddolwyr i ddosbarthu a chasglu amlenni ym Mhorthcawl. Cysylltwch â un o'r Swyddogion iddynt fedru cysylltu â Carol Evans Trefnydd Cymorth Cristnogol ym Mhorthcawl.

nefoedd newydd a daear newydd. Roedd y ddaear a'r awyr gyntaf wedi diflannu. Doedd y môr ddim yn bodoli ddim mwy.² Dyma fi'n gweld y ddinas sanctaidd, y Jerwsalem newydd, yn dod i lawr oddi wrth Dduw yn y nefoedd. Roedd yn edrych fel merch ifanc wedi'i gwisgo'n hardd ar gyfer ei phriodas.³ Wedyn clywais lais o'r orsedd yn cyhoeddi'n glir, "Bellach mae pabell Duw yng nghanol y bobloedd. Bydd yn byw yn eu canol nhw, a byddan nhw'n bobl iddo. Bydd Duw ei hun gyda nhw, a fe fydd eu Duw nhw."⁴ Bydd yn sychu pob deigr yn o'u llygaid nhw. Fydd dim marwolaeth o hyn ymlaen, dim galaru, dim wylo, dim poen. Mae pethau fel roedden nhw wedi mynd." Datguddiad 21:1-4 "Fydd melltith rhyfel ddim yn bod bellach." Dat 22:3

Felly dymunaf i bob un ohonoch Ddydd Sadwrn y Pasg hapus iawn, y diwrnod sy'n **aros mewn gobaith**.

Pob bendith

Rosan

Annwyl Ffrindiau

Rym ni fel eglwys hefyd yng nghyfnod yr aros-mewn gobaith, wrth i ni gario ymlaen i drafod dyfodol yr eglwys wedi fy ymddeoliad. Gadewch i ni gyd ymddiried yn addewidion Duw i fod gyda ac i arwain ei bobl. Ymddiriedaeth yw'r ffurf uchaf o ffydd. Bod yn dawel yn yr Arglwydd gan gredu ei fod yn cwrdd â'n holl eisiau. (Philipiadaid 4:19). Wrth bwyso ac ymddiried yn Nuw meddai'r emynydd 'Caf nerth gan Dduw o ddydd i ddydd i gario'r groes yng nghymorth ffydd.'

Diolch i bawb a fu'n paratoi a threfnu a chymryd rhan yn y gwasanaethau hynod fendithiol a gawsoch tra ron i ar gyfnod Sabothol/gwyliau. Rym ni mor ffodus ohonoch chi ac yn gwerthfawrogi eich parodrwydd i wasanaethu a hefyd bugeilio'r aelodau sâl.

CYDYMDEIMLO

Cawsom fel eglwys golled enfawr ym marwolaeth John Stone, cydweithiwr a ffrind arbennig iawn, estynnwn gydymdeimlad ddiffuant yr eglwys i David a Roger a'r teulu cyfan yn eu hiraeth a'u galar.

YSBYTY

Treuliodd Colin Lewis gyfnod hir yn yr ysbyty, ond mae adref erbyn hyn ac yn diolch i Dduw am ei ofal drosto. Cofiw'n yn ein gweddïau am bob un o'n haelodau sy'n methu bod gyda ni yn ein gwasanaethau oherwydd salwch a llesgedd.

LLONGYFARCH

Estynnwn ein llongyfarchiadau calonnog i Mrs Karen Price (Merch Mr a Mrs Robert Stephens) ar ei dyrchafiad i fod yn Bennaeth Cynorthwyol yn adran Iau Ysgol Eglwys Gadeiriol Llandaf. Pob dymuniad da iddi i'r dyfodol ar ei dyrchafiad ym myd addysg.

CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG.

Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf o Gyfundeb Dwyrain Morgannwg ar brynhawn Sul, Ionawr yr 22, yng nghapel Bethlehem, Gwaelod y Garth.

Y Parchg Robin Samuel oedd yn arwain y sesiwn ar gynllun Y Ffordd, sef adnodd newydd Undeb yr Annibynwyr ar astudio'r Beibl. Mae'r cynllun yn ymestyn dros bedair blynedd, o 2016 i 2020, ond gallir dechrau'r cynllun ar unrhyw adeg ac anogir eglwysi i ddechrau'r cwrs pan maent yn barod i wneud hynny.

Ceir themâu gwahanol i bob blwyddyn –

Blwyddyn 1 – Ffyrdd drwy'r Beibl

Blwyddyn 2 – Y Ffordd y daethom

Blwyddyn 3 – Tystiolaeth pobl y Ffordd

Blwyddyn 4 – Gofal Pobl y Ffordd

Rhannwyd pob blwyddyn yn bedair rhan ac fe gyhoeddir DVD a phamffledi bach ar gyfer pob rhan. Mae hwn yn gynllun gallwn edrych arno yn y dyfodol.

Cyfarfodydd nesaf o'r Cyfundeb.

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 3.00 o'r gloch prynhawn dydd Mercher, Ebrill 26ain, yma yn y Tabernacl. Ein braint fydd cael croesawu Llywydd Undeb yr Annibynwyr, Mr Glyn Williams, i annerch y Cyfundeb. Mae gwahoddiad cynnes i bob aelod i ddod i groesawu Glyn Williams ac i wrando ar ei anerchiad. Cynhelir y cyfarfod yn y capel a bydd lluniaeth ysgafn i bawb yn y neuadd wedyn.

DYDD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD.

Prynhawn dydd Gwener y 3ydd o Fawrth cynhaliwyd gwasanaeth Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yng nghapel Arlington Road. Cymrwyd rhan gan aelodau o holl eglwysi'r dref. Roedd y gwasanaeth eleni wedi ei baratoi gan ferched Ynysoedd y Philipîn.

EGLWYSI YNGHYD YM MHORTHCAWL

Roedd cyfarfodydd y Grawys a drefnwyd gan eglwysi Ynghyd ym Mhorthcawl ychydig yn wahanol eleni, gan eu bod wedi eu sefydlu ar luniau cyfoes gan Mark Cazelet o Safleoedd y Groes - "Stations of the Cross".

John Berry oedd wedi gweld y lluniau yng Nghadeirlan Lincoln ac wedi trefnu, gyda pherchennog y lluniau, i'w benthyg er mwyn eu defnyddio ar gyfer ein hastudiaethau. Maent yn werthfawr iawn gan fod pob llun, pymtheg i gyd, wedi eu hyswirio am £1000 yr un.

Mae nifer o'r lluniau, sydd yn dywyll iawn i gyfleu taith arswydus Crist tua'r groes, wedi eu lleoli yn ardaloedd o Lundain o amgylch carchar Wormwood Scrubs. Diolch i John Berry am ei holl waith yn trefnu'r astudiaethau ac yn paratoi taflenni ar gyfer pawb.

Y BANC BWYD

Diolch i bawb sydd wedi cefnogi'r Banc Bwyd drwy gyfrannu nwyddau neu arian tuag at yr elusen werthfawr yma.

AELWYD YR URDD –

Llongyfarchiadau mawr i holl blant a phobl ifanc Adran ac Aelwyd Porthcawl sy wedi bod yn brysur yn cystadlu yn eisteddfodau cylch a sir yr Urdd dros yr wythnosau diwetha. Maent yn edrych mlaen nawr at gystadlu ym Mhen-coed ddiwedd mis Mai gyda chyfanswm o 18 o gystadlaethau!

Mae hi wedi bod yn gyfnod prysur iawn i Teilo Evans, un o aelodau hŷn Aelwyd Porthcawl wrth iddo ymgymryd â'r gwaith fel cyfeilydd swyddogol yn Eisteddfod Cylch Llantrisant ym mis Mawrth. Mae e hefyd wedi bod yn hyfforddi disgyblion Ysgol Llanhari ar gyfer cystadlaethau lleisiol Eisteddfod yr Urdd 2017.